# Defnyddio Taliadau Uniongyrchol i Ddiwallu Anghenion Gofal a Chymorth Pobl
# Polisi

**Mai 2023**

## Beth yw taliadau uniongyrchol?

Mae taliadau uniongyrchol yn un o'r ffyrdd y gallwn ddiwallu anghenion rhywun sy'n gymwys i gael gofal cymdeithasol a chymorth, neu anghenion gofalwr di-dâl.

Caiff taliadau eu gwneud yn uniongyrchol i berson neu i'w gynrychiolydd, e.e. aelod o'r teulu. Maen nhw'n defnyddio'r arian i drefnu eu gofal neu gymorth eu hunain mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw, gan eu galluogi i ddewis pwy sy'n rhoi'r cymorth, a ble a phryd y caiff ei roi.

Nid math o incwm yw taliadau uniongyrchol. Darperir taliad uniongyrchol i alluogi unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth, neu ofalwr am berson ag anghenion gofal a chymorth, i gyflawni eu deilliannau llesiant a nodwyd yn eu cynllun gofal a chymorth. Gellir prynu gwasanaethau a/neu offer gan ddefnyddio'r taliad uniongyrchol a ddarperir, er enghraifft.

Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol hefyd i gynorthwyo unigolyn gyda hanfodion bywyd pob dydd fel gofal personol, gwisgo, coginio, gyrru, a chymorth i hwyluso'r broses o'u rhyddhau o'r ysbyty. Gellir eu defnyddio hefyd i hwyluso gweithgareddau cymdeithasol y tu allan i'r cartref, megis ymweld â ffrindiau, dosbarthiadau nos a garddio, yn ogystal ag ar gyfer cymorth i gael mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth. Enghreifftiau o sut y gellir defnyddio taliad uniongyrchol yw'r rhain ac nid dyma'r unig ffyrdd y gellir defnyddio taliadau uniongyrchol; fodd bynnag, rhaid i bopeth a brynir gan ddefnyddio taliad uniongyrchol helpu i gyflawni'r deilliannau llesiant personol a nodir yn y cynllun gofal a chymorth.

## Y ddogfen hon

Y ddogfen hon yw Polisi Taliadau Uniongyrchol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("y Cyngor"). Mae'n nodi'r rheolau a'r canllawiau y mae'r Cyngor yn gweithio iddynt, a'i ymagwedd tuag at ddefnyddio taliadau uniongyrchol i roi cymorth i gyflawni deilliannau llesiant unigolyn. Goleuwyd y polisi gan ganfyddiadau adolygiad annibynnol lle dywedodd pobl wrthym beth sy'n gweithio'n dda a beth yr oedd angen ei wella o ran sut y mae'r Cyngor yn gweinyddu taliadau uniongyrchol.

## Beth yw diben y polisi taliadau uniongyrchol?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymrwymedig i wella ansawdd bywyd a llesiant pawb sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol ac, yn benodol, i wella deilliannau llesiant pobl ag anghenion gofal a chymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol. I lawer o bobl ag anghenion gofal a chymorth, mae taliad uniongyrchol yn rhoi mwy o gymorth iddynt a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

Mae'r polisi taliadau uniongyrchol hwn hefyd yn galluogi'r Cyngor i ddilyn yr hyn a nodir, o dan y gyfraith, yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor asesu unigolyn a all fod ag anghenion gofal a chymorth a, lle canfyddir angen cymwys, diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn hwnnw - oedolion, plant a gofalwyr. Strategaeth y Cyngor yw galluogi unigolion i fyw'r bywydau y mae arnynt eisiau eu byw. I'r rhan fwyaf o bobl, mae hyn yn golygu byw mor annibynnol â phosibl, gyda neu heb gymorth, yn eu cartrefi eu hunain. Mae ar y rhan fwyaf o bobl eisiau bod yn rhan o fywyd teuluol a chymunedol, ac ymgysylltu â gwaith, addysg a gweithgareddau hamdden pryd bynnag y bo modd.

## Y gyfraith

Y Ddeddf yw'r ddeddfwriaeth sy'n tanategu'r polisi hwn. Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar bedair egwyddor:

- **Llais a rheolaeth**: mae'r unigolyn a'u hanghenion yn ganolog i'w gofal, ac mae ganddynt lais a rheolaeth o ran sut y cyflawnir y deilliannau sy'n cynnal neu'n gwella eu llesiant.
- **Atal ac ymyrryd yn gynnar:** cynyddu gwasanaethau yn y gymuned i atal pobl rhag cyrraedd sefyllfa argyfyngus.
- **Llesiant**: helpu pobl i gyflawni llesiant a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
- **Cydgynhyrchu**: sy'n golygu annog pobl i ymwneud yn fwy â'r ffordd y mae cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu dylunio a'u cyflawni, yn ogystal â llunio polisïau a gwasanaethau'r Cyngor.

Mae taliadau uniongyrchol yn ffordd bwysig o wella llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a llesiant gofalwyr di-dâl.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer cyfreithiol i'r Cyngor wneud taliadau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a phlant, ac anghenion cymorth gofalwyr. Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu taliadau uniongyrchol yn unol â Chod Ymarfer (Rhan 4 –Diwallu Anghenion) y Ddeddf, sy'n nodi hawliau a chyfrifoldebau pobl i gael a rheoli taliadau uniongyrchol.

Mae polisi'r Cyngor hefyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus wneud popeth o fewn eu gallu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r polisi hefyd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau a osodwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Egwyddorion

Egwyddorion y Cyngor yw:

- **Gofal am unigolion mewn modd teg** – gan ystyried anghenion a sefyllfaoedd pawb.

- **Wastad yn uchelgeisiol** – yn ceisio gwella’r hyn yr ydym yn ei wneud ac yn anelu at ragoriaeth.
- **Er lles ein cwsmeriaid** – eu hadnabod a’u gwneud yn ganolog a chofio ein bod yma i wasanaethu ein cymunedau lleol.
- **Ddydd ar ôl Dydd, yn mynd ar drywydd effeithlonrwydd** – trwy ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian.

Mae'r polisi hwn yn cymhwyso'r egwyddorion hyn ochr yn ochr â'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i weithio'n gydgynhyrchiol gyda dinasyddion y fwrdeistref sirol sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor. Goleuwyd y polisi gan ymgysylltiad a chyfranogiad pobl sydd â buddiant neu rôl lle mae defnyddio taliadau uniongyrchol yn y cwestiwn. Mae hyn yn golygu y bydd y ffordd y caiff taliadau uniongyrchol eu cefnogi ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn diwallu anghenion pobl yn fwy effeithiol.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig drwy'r polisi hwn i gydweithio'n agos gyda sefydliadau a grwpiau cymunedol i gefnogi mentrau sy'n helpu i wella llesiant pobl mewn sawl ffordd, gan gynnwys datblygu cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol dan arweiniad pobl leol.

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi adborth pobl a bydd yn gofyn am adborth ar ein gwasanaethau a'n cymorth. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i ddysgu a gwella'n barhaus.

## Ein hymagwedd

Mae ymagwedd y Cyngor at daliadau uniongyrchol yn seiliedig ar bedair egwyddor:-

- Hyrwyddo'r defnydd o daliadau uniongyrchol a helpu pobl i reoli eu gofal a'u cymorth.
- Cynnwys pobl wrth lunio'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael.
- Annog pobl i ddod o hyd i ffyrdd creadigol, hyblyg ac arloesol o gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt er mwyn eu hannibyniaeth a'u llesiant.
- Ystyried y cymorth presennol a allai fod gan bobl.

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu a fydd rhoi gofal a/neu gymorth yn cynorthwyo unigolyn i gyflawni'r deilliannau personol y mae arnynt eisiau eu cyflawni er mwyn eu llesiant. Wrth gwblhau asesiad, mae pedwar peth a gaiff eu hystyried:

- Amgylchiadau'r person ac a yw eu hangen am ofal a chymorth yn deillio o'r hyn a nodir yn y gyfraith. Mae'r gyfraith yn manylu ar fathau penodol o amgylchiadau ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr.

- A yw eu hangen yn ymwneud ag un neu fwy o'r deilliannau a nodir yn y gyfraith, e.e. y gallu i gyflawni gorchwylion hunanofal neu ddomestig. Mae'r gyfraith yn manylu ar fathau penodol o amgylchiadau ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr.

- A yw'r angen yn un sy’n golygu nad yw person yn gallu ei ddiwallu ar eu pen eu hunain, neu gyda gofal a chymorth eraill sy'n gallu neu'n fodlon eu rhoi, neu gyda chymorth gwasanaethau eraill yn y gymuned. Ar gyfer plentyn, bodlonir yr amod os yw'r angen yn un na all y plentyn, rhieni'r plentyn, nac unrhyw un arall mewn rôl rhiant, ei ddiwallu naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd.

- Mae'r person yn annhebygol o gyflawni'r deilliannau personol y mae arnynt eisiau eu cyflawni oni bai bod y Cyngor yn rhoi neu'n trefnu gofal a chymorth trwy gynllun gofal a chymorth a/neu'n galluogi'r angen i gael ei ddiwallu trwy wneud taliadau uniongyrchol.

Pan fo rhywun yn gymwys i gael gofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, bydd y Cyngor yn treulio amser gyda hwy neu eu cynrychiolydd i'w helpu i benderfynu pa ofal sydd orau a sut y gellid ei roi, gan gynnwys yr opsiwn i ddefnyddio taliadau uniongyrchol.

Bydd y Cyngor yn:

- Cymryd amser i ddarganfod yr hyn sy'n bwysig i bob unigolyn a'r hyn y mae arnynt eisiau ei gyflawni i wella eu llesiant.

- Cynnig taliadau uniongyrchol fel opsiwn cyfartal ochr yn ochr â ffyrdd eraill o roi gofal a/neu gymorth.

- Defnyddio taliadau uniongyrchol lle gall hynny helpu i atal anghenion unigolyn rhag cynyddu neu atal sefyllfa unigolyn rhag gwaethygu, gan amcanu at sicrhau bod yr help, y cyngor a'r cymorth cywir ar gael pan fo’u hangen.

- Esbonio popeth y mae angen i berson ei wybod am daliadau uniongyrchol ac ateb pob cwestiwn. Bydd y Cyngor hefyd yn esbonio'r cymorth a'r gefnogaeth a roddir trwy gydol yr amser y mae rhywun yn cael taliadau uniongyrchol.

Ni fydd y Cyngor ond yn gwrthod taliad uniongyrchol lle mae’n amlwg, ar ôl archwilio'r holl opsiynau'n fanwl, na fyddai'n gallu sicrhau'r deilliannau y mae ar y person eisiau eu cyflawni.

## Ein huchelgais

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i wneud pobl yn ymwybodol o fanteision taliadau uniongyrchol. Bydd y Cyngor yn codi ymwybyddiaeth o daliadau uniongyrchol, trwy hyrwyddo eu defnydd, a thrwy eu defnyddio mewn ffyrdd mwy creadigol a hyblyg i ddiwallu anghenion pobl.

Bydd y Cyngor yn defnyddio taliadau uniongyrchol fel ffordd o helpu i atal anghenion rhywun rhag cynyddu neu atal eu hamgylchiadau rhag gwaethygu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan bobl anghenion gwahanol, o anghenion byrdymor i'r rhai sy'n fwy cymhleth a hirdymor. Efallai y bydd ar unigolyn angen gofal a chymorth ar eu cyfer hwy eu hunain, neu i'w cefnogi fel gofalwr di-dâl am rywun sydd ag anghenion gofal a chymorth.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i roi gofal cymdeithasol a/neu gymorth effeithiol i bawb y mae eu hangen arnynt ac sy'n gymwys i'w cael – oedolion, plant, teuluoedd, a gofalwyr. Nod y Cyngor yw bod pobl yn byw mor annibynnol ag sy'n bosibl iddynt hwy, gyda neu heb gymorth, a'u bod yn ymwneud yn gymaint ag y dymunant ei wneud â bywyd teuluol a chymunedol, ac yn ymgysylltu â gwaith, addysg a gweithgareddau hamdden pan a ble y bo hynny'n bosibl.

## Ein hymrwymiad

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu'r trefniadau gofal a chymorth gorau posibl. Mae'r diagram canlynol yn disgrifio sut y mae'r Cyngor yn gweithio a beth fydd y Cyngor yn ei wneud cyn i rywun gael mynediad at ofal a chymorth, yn ystod y broses o gael mynediad at ofal a chymorth, a thrwy gydol yr amser y maent yn cael taliadau uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion asesedig am ofal a chymorth:

| Pryd | Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan y Cyngor |
|---|---|
| **Cyn cael mynediad at ofal a chymorth** | • Gwybodaeth hawdd i'w deall, hygyrch, i bobl sy'n teimlo y gallai fod angen help arnynt hwy (neu aelod o'r teulu), gan gynnwys eu hawliau o dan y gyfraith.<br>• Ymateb yn gyflym i ymholiadau a cheisiadau. |
| **Ar ôl y cyswllt cychwynnol; asesiad, ac wrth gael mynediad at ofal a chymorth** | • Mynediad syml a rhwydd, a thrafodaeth bersonol gyda'n gweithwyr cymdeithasol a'n Tîm Taliadau Uniongyrchol.<br>• Byddwn yn cymryd amser i drafod "yr hyn sy'n bwysig" i chi.<br>• Byddwn yn eich cynnwys wrth benderfynu pa ofal a chymorth fydd yn eich helpu i sicrhau llesiant i chi.<br>• Byddwn yn cadw meddwl agored, yn greadigol ac yn hyblyg wrth drafod ac adnabod ffyrdd i'ch helpu i gyflawni'r hyn y mae arnoch ei eisiau<br>• Asesiad o'ch anghenion, ac os ydych yn gymwys i gael gofal a/neu gymorth, byddwn yn trafod a chynnig taliadau uniongyrchol fel opsiwn cyfartal (ac mewn adolygiadau ac ailasesiadau)<br>• Byddwn yn dweud wrthych am bopeth y mae angen i chi ei wybod am daliadau uniongyrchol ac yn ateb eich holl gwestiynau.<br>• Esboniad o'r cymorth parhaus y byddwn yn ei roi<br>• Esbonio'r asesiad ariannol a goblygiadau o ran codi tâl<br>• Cynnig cymorth eiriolaeth annibynnol, os oes ei hangen<br>• Gwneud penderfyniadau cyn gynted â phosibl |
| **Wrth sefydlu taliad uniongyrchol i ddiwallu eich anghenion gofal a** | • Rhannu cynllun gofal a chymorth o ansawdd da gyda chi<br>• Esboniad o'ch cyfrifoldebau a'ch rhwymedigaethau a sut y byddwn yn eich helpu i'w rheoli, a risgiau.<br>• Cyfrifiadau taliadau cywir a theg, a threfniadau talu sy'n diwallu eich anghenion<br>• Trafodaeth agored, onest a didwyll gyda chi am unrhyw feysydd yr ydych yn meddwl y gallech eu cael yn anodd.<br>• Cyngor a chymorth pan fydd eu hangen arnoch.<br>• Cytuno ar ein priod rolau i reoli taliadau uniongyrchol<br>• Eglurder ynghylch yr hyn sy'n digwydd gydag arian heb ei wario a'i ddefnydd i gyflawni eich deilliannau personol y cytunwyd arnynt<br>• Rhoi trefniadau ar waith rhag ofn y bydd pethau'n mynd o chwith |
| **Trwy gydol yr amser y ceir taliadau uniongyrchol** | • Gwybodaeth, cyngor a chymorth pan fydd eu hangen arnoch<br>• Trefniadau monitro hawdd i'w defnyddio<br>• Gwybodaeth reolaidd ac amserol am wariant yn erbyn y gyllideb<br>• Adolygiadau rheolaidd, amserol, i adnabod a goresgyn unrhyw broblemau wrth gyflawni eich deilliannau y cytunwyd arnynt, i drafod y defnydd o gyllid, ac i asesu pa wahaniaeth y mae'r gofal a'r cymorth wedi'i wneud.<br>• Trefniadau symlach ar gyfer cytuno ar addasiadau mewn ymateb i anghenion sy'n newid |

## Codi ymwybyddiaeth o daliadau uniongyrchol

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a gwasanaethau ataliol, ac i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag eraill i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar gymorth yn lleol.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei breswylwyr yn gallu cael mynediad rhwydd at wybodaeth fel bod unrhyw un sy'n teimlo y gallai fod angen help arnynt hwy neu aelod o'r teulu’n deall pa ofal a/neu gymorth cymdeithasol allai fod ar gael, a'u hawliau.

Bydd y Cyngor yn  cyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan ac yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill o ledaenu gwybodaeth, gan gynnwys sefydliadau eraill a grwpiau cymunedol.

## Gweithio gyda chi os oes gennych anghenion gofal a chymorth neu os ydych yn Ofalwr am rywun ag anghenion gofal a chymorth

Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda chi neu eich cynrychiolydd, gan drafod yr hyn sy'n bwysig i'ch llesiant, a'ch cynnwys os oes angen gofal a/neu gymorth arnoch i'ch helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi.

Ar ôl asesu eich anghenion a'ch cymhwystra i gael gofal a chymorth, bydd y Cyngor yn cynnig taliadau uniongyrchol fel opsiwn, gan egluro sut y gallant gynnig dewis a rheolaeth dros ofal a chymorth.

## Gwybodaeth a chymorth

Bydd y Cyngor yn dweud wrthych chi neu rywun sy'n eich cynrychioli am bopeth y mae angen i chi ei wybod am daliadau uniongyrchol. Bydd gweithwyr cymdeithasol a thîm taliadau uniongyrchol y Cyngor yn rhoi gwybodaeth a chyngor pan fyddwch yn ystyried cynnig o daliadau uniongyrchol i'ch helpu i ddeall sut y mae taliadau uniongyrchol yn gweithio a'r cyfrifoldebau sy’n gysylltiedig â hynny fel y gallwch wneud penderfyniad gwybodus. Mae’r tîm taliadau uniongyrchol hefyd yn rhoi help parhaus, o ddydd i ddydd, i bawb sy'n cael taliadau uniongyrchol.

Os bydd angen, bydd y Cyngor yn trefnu i eiriolwr annibynnol helpu rhywun i wneud penderfyniad gwybodus am daliadau uniongyrchol.

## Staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda

Bydd y Cyngor yn sicrhau gwasanaeth sy'n gyson dda. Mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu rheolaidd, parhaus i'n staff gofal cymdeithasol ac i staff rheng-flaen eraill yn y Cyngor sy'n dod i gysylltiad â'n preswylwyr. Mae hyn, ynghyd â hyfforddiant i staff newydd sy'n ymuno â'n tîm, yn sicrhau bod ein polisi a'r gyfraith yn arwain at arfer effeithiol.

## Gweithio gyda darparwyr a sefydliadau eraill

Mae gan gynorthwywyr personol rôl hanfodol o ran rhoi gofal a chymorth ac rydym yn gweithio i roi mwy o gymorth a hyfforddiant iddynt i ddiweddaru eu sgiliau. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau lleol eraill i roi cymorth i recriwtio mwy o bobl i weithio fel cynorthwyydd personol ac i gefnogi'r cyfleoedd i unigolion ag anghenion gofal a chymorth a gofalwyr rannu cynorthwyydd personol a all eu helpu i wneud defnydd gwell byth o daliadau uniongyrchol.

## Eich helpu i reoli eich taliadau uniongyrchol

Pan fydd taliad uniongyrchol yn cael ei gymeradwyo, bydd y Cyngor yn sefydlu cytundeb gyda'r unigolyn ag anghenion gofal a chymorth, neu'r gofalwr neu eu cynrychiolydd. Bydd y cynllun gofal yn canolbwyntio ar ddefnydd hyblyg a chreadigol o daliadau uniongyrchol i gyflawni'r deilliannau llesiant y cytunwyd arnynt. Bydd hefyd yn nodi eich rolau a'ch cyfrifoldebau chi, neu rolau a chyfrifoldebau eich cynrychiolydd, a rolau a chyfrifoldebau'r Cyngor fel gweithredwr y cynllun taliadau uniongyrchol. Bydd y Cyngor yn sicrhau y cynhelir trafodaeth cyn llofnodi'r cytundeb i sicrhau bod ei gynnwys yn glir ac yn cael ei ddeall, i roi sicrwydd ynghylch unrhyw bryderon, ac i esbonio'r cymorth parhaus a ddarperir gennym.

Bydd y Cyngor yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer cymorth parhaus, o ddydd i ddydd, i helpu'r unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth/ gofalwr i reoli taliadau uniongyrchol a chael trafodaeth reolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

## Adborth

Bydd y Cyngor yn mynd ati'n frwd i geisio adborth gan bobl ar eu profiad o drafod neu gael taliadau uniongyrchol. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r adborth i ystyried sut i wella ac i ddeall sut y mae taliadau uniongyrchol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ac yn helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy o ran eu llesiant.

Os bydd unrhyw un yn anfodlon ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu'r polisi neu'n poeni ynghylch hynny, gallant ofyn am ddatrysiad trwy'r Polisi Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol neu Bolisi Cwynion y Cyngor. Bydd yr hyn sy'n berthnasol yn dibynnu ar natur y gŵyn.

## Sut i gysylltu â'r Cyngor

Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth a chyngor defnyddiol ynghylch ein holl wasanaethau i oedolion a phlant, sut i gysylltu â ni, a gwybodaeth am y cymorth arall sydd ar gael.

**Oedolion**
**https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/gofal-cymdeithasol-a-lles/gofal-cymdeithasol-i-oedolion/**

**Plant**
**https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/gofal-cymdeithasol-a-lles/gofal-cymdeithasol-plant/**

**Taliadau uniongyrchol**

**https://www.bridgend.gov.uk/residents/social-care-and-wellbeing/adult-social-care/direct-payments/**

**Y Tîm Taliadau Uniongyrchol**

Mae gan Dîm Taliadau Uniongyrchol y Cyngor wybodaeth fanwl am daliadau uniongyrchol a gallant ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

Gwasanaethau Oedolion:
Ffôn 01656 642279.
E-bost contactassessmentreviewteam@bridgend.gov.uk

Gwasanaethau Plant:

Ffôn 01656 642320
E-bost assessmentteamduty@bridgend.gov.uk